

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Rheoliadau Sgorio Hylandid Bwyd (Cymru) 2013



'Hawl i Ymateb'

Nodiadau ar gyfer busnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd y sefydliad mae gennych hawl i ymateb o dan Adran 11 o Ddeddf Sgorio Hylandid Bwyd (Cymru) 2013, mewn perthynas â'r sgôr hylandid a roddwyd i chi ar ôl i'ch sefydliad gael ei arolygu. Gallwch arfer yr hawl hwn ar unrhyw adeg tra bo'r sgôr yn ddilys.
- Diben yr hawl i ymateb yw rhoi cyfle i chi egluro'r camau yr ydych wedi eu cymryd yn sgil yr adolygiad i gyflwyno'r gwelliannau gofynnol a nodir yn y llythyr arolygu, neu egluro unrhyw amgylchiadau lliniarol a oedd ar waith adeg yr arolygiad. Ni fwriedir i'ch ffurflen fod yn gyfrwng i chi feirniadu na chwyno am y cynllun sgorio neu'r swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd yr arolygiad.
- Os hoffech fanteisio ar yr hawl i ymateb, defnyddiwch y ffurflen isod a'ch dychwelyd at y swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd eich arolygiad - mae'r manylion cyswllt ar gael yn y llythyr anfonwyd atoch gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylandid bwyd.
- Mae'r rhaid i chi gyflwyno eich sylwadau yn ysgrifenedig ond nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Gallwch gyflwyno eich sylwadau mewn fformat ysgrifenedig arall.
- Nid yw sylwadau sarhaus, difenwol, anghywir neu amherthnasol yn dderbyniol. Os ydych yn cyflwyno sylwadau o'r fath byddwn yn eich gwahodd i adolygu eich testun.
- Bydd eich sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn cael eu cyhoeddi ar-lein a'r harddangos ynghyd â'r sgôr hylandid bwyd ar food.gov.uk/ratings.

Enw'r busnes			
Cyfeiriadau'r busnes			
Dyddiad arolygu		Sgôr hylandid bwyd a roddwyd	

Rwy'n cytuno â chanfyddiadau'r arolygiad ond, ers hynny, rwyf wedi rhoi'r newidiadau canlynol ar waith (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- Mae'r sefydliad wedi cael ei lanhau'r drylwyr ac mae gweithdrefnau ar waith i gynnal y safonau glendid.
- Mae'r sefydliad wedi ei adnewyddu'r llwyr neu ar fin cael ei adnewyddu'r llwyr. Mae system reoli newid ar waith.
- Mae rheolwr a/neu staff newydd yn y sefydliad.

- Maeq staff wedi cael eu hyfforddi/ail-hyfforddi/wedi cael cyfarwyddiadau/yn gweithio dan drefniadau goruchwyllo diwygiedig.
- Arall . nodwch y manylion isod gan ddefnyddioq gofod hwn yn unig

- Nid oedd yr amgylchiadau adeg yr arolygiad yn nodweddiadol o amgylchiadau arferol y sefydliad a bu iddynt godi oherwydd (Eglurwch y rhesymau isod gan ddefnyddioq gofod hwn yn unig. Gallwch nodi hefyd unrhyw welliannau eraill a wnaed):

Llofnod	<input style="width: 95%;" type="text"/>		
Enw mewn priflythrennau	<input style="width: 95%;" type="text"/>		
Swydd	<input style="width: 60%;" type="text"/>	Dyddiad	<input style="width: 20%;" type="text"/>

Dychwelwch y ffurflen hon at: Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN - Ffôn : 01685 725000 E-bost publichealth@merthyr.gov.uk